

Caru Gwenyn
Bee Friendly

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# PLANNU AR GYFER PRYFED PEILLIO

Canllaw i'ch helpu i ddewis planhigion a rhoi syniadau i chi ar sut i wneud eich safle, eich sefydliad neu'ch cymuned yn gyfeillgar i bryfed peillio.

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| PLANNU AR GYFER PRYFED PEILLIO | 3 |
| PLANHIGION SYDD WRTH FODD PRYFED PEILLIO | 4 |
| DECHRAU'R TYMOR | 4-8 |
| CANOL Y TYMOR | 9-13 |
| DIWEDD Y TYMOR | 14-19 |
| AWGRYMIADAU ARDDERCHOG AR GYFER GWNEUD EICH LLE'N GYFEILLGAR I BRYFED PEILLIO | 20 |
| PEIDIWCH Â THORRI'R GLASWELLT MOR AML | 21-23 |
| CAFNAU PLANNU | 24-25 |
| SUT I GREU LLE SY'N GYFEILLGAR I BRYFED PEILLIO | 26-33 |
| TYFU EICH PLANHIGION NEWYDD EICH HUN YN RHAD AC AM DDIM | 34-35 |
| ADNODDAU A CHYMORTH | 36 |
| DIOLCHIADAU | 36 |



OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47509, ISBN argraffu 978-1-80535-948-7,


ISBN digidol 978-1-80535-949-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg


# PLANNU AR GYFER PRYFED PEILLIO

Fe allwch chi chwarae rhan bwysig yn y dasg o warchod pryfed peillio[1]. Mae pryfed peillio yn bwydo ar neithdar neu baill. Gall pob gardd neu lecyn tyfu – dim gwahaniaeth pa mor fawr neu fach yw'r lle hwnnw – fod yn hafan i bryfed peillio, cyn belled â'ch bod yn dewis blodau sy'n cynnig llawer o neithdar neu baill. Bu gostyngiad mewn pryfed peillio gwyllt ond y newyddion da yw y gallwch helpu!

Mae blodau gwyllt yn dda i bryfed peillio, ond mae'r un peth yn wir am lawer o flodau gardd. Y peth pwysig yw bod trychfilod yn gallu casglu paill a neithdar yn rhwydd. Mae rhai blodau gardd lliwgar wedi cael eu bridio er mwyn edrych yn hardd, ond dydyn nhw ddim yn ffynonellau bwyd da. Yn aml, mae gan eu blodau siâp cymhleth ac mae hyn yn rhwystro trychfilod rhag cyrraedd y bwyd.

Mae planhigion i'w plannu allan, fel mynawyd y bugail, begonias, blodau'r gannwyll a phetwniâu, yn perthyn i'r categori yma.

Fel arfer, ychydig iawn o'u paill neu eu neithdar sydd o fewn cyrraedd y trychfilod sy'n byw yng Nghymru.

Trwy lwc, mae yna lu o blanhigion sy'n addas i'n pryfed peillio. I'ch rhoi ar ben y ffordd, mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru wedi dewis y 30 gorau.

Gallwch gael rhestr hirach o blanhigion sy'n dda i bryfed peillio ar y **dudalen we Caru Gwenyn**[2]. Os byddwch yn prynu planhigion, cadwch olwg am ein logos 'cyfeillgar i bryfed peillio' ar labeli planhigion. Gall hyn hefyd eich helpu i ddewis y planhigion iawn.

### OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Mae pryfed peillio yn cynnwys cacwn, gwenyn unig, gwenyn mêl, gloÿnnod byw, gwyfynod, pryfed hofran a rhai gwenyn meirch chwilod a phryfed. Yng Nghymru, ni fu gostyngiad yn nifer y gwenyn mêl sy'n cael eu rheoli'n bennaf gan wenynwyr.

[1] Turnover in floral composition explains species diversity and temporal stability in the nectar supply of urban residential gardens - **www.besjournals.onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/1365-2664.14094**

[2] **www.biodiversitywales.org.uk/Yngl-n-r-cynllun**

# PLANHIGION SYDD WRTH FODD PRYFED PEILLIO

Ar sail gwaith ymchwil arloesol, mae gwyddonwyr yng **Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**[3] wedi dewis 30 o blanhigion a fydd yn eich helpu i ddenu pryfed peillio o bob lliw a llun. Er mwyn cynnig bwyd i bryfed peillio, mae hi'n bwysig cael digonedd o blanhigion yn eu blodau drwy gydol y flwyddyn.

## DECHRAU'R TYMOR

### Coed Ceirios (*Prunus*)



credyd llun: Dr Natasha de Vere

Mae *Prunus* yn cynnwys coed ceirios, coed eirin, coed eirin bwlas, coed eirin gwyrdd a choed eirin duon bach (drain duon). Mae trychfilod a phobl wrth eu bodd gyda nhw. Gan eu bod yn blodeuo'n gynnar yn y tymor, maen nhw'n ffynhonnell bwysig o neithdar a phaill i wenyn mêl, cacwn, gwenyn unig a phryfed hofran.

Mae coed *Prunus* o bob lliw a llun i'w cael. Mae modd ichi arwain *Prunus* i dyfu mewn siâp gwyntyll yn erbyn wal neu ffens, a gall hyn arbed llawer o le.

Peidiwch â phlannu coed ceirios â blodau dwbl, oherwydd ar y cyfan dydyn nhw ddim yn werthfawr iawn i bryfed peillio.

### Coed Afalau (*Malus*)



credyd llun J Brentnall

Mae *Malus* yn cynnwys coed afalau bwyta, coed afalau coginio a choed afalau surion. Maen nhw'n blodeuo rhwng diwedd Ebrill a Mai, gan gynnig ffynhonnell fwyd gynnar hollbwysig i wenyn mêl, cacwn, gwenyn unig a phryfed hofran. Yn nes ymlaen yn y flwyddyn, bydd glöynnod byw fel y fantell goch a'r iâr fach dramor yn bwydo ar sudd ffrwythau goraeddfed sydd wedi syrthio oddi ar y coed.

Fel arfer caiff afalau eu himpio ar wreiddgyff a fydd yn penderfynu pa mor uchel y byddan nhw'n tyfu a pha mor gyflym y byddan nhw'n dwyn ffrwyth. Gallwch dyfu coed afalau bychain mewn llecynnau bach neu botiau mawr. Mae modd ichi arwain coed afalau i dyfu mewn siâp gwyntyll, ar ffurf coed ungoes neu'n esbalier.

[3] **garddfotaneg.cymru/science/saving-pollinators/**



### Saffrwm (*Crocus*)



credyd llun: Dr Natasha de Vere

Mae gwenyn mêl, cacwn a phryfed hofran sy'n chwilio am fwyd ar ôl y gaeaf yn hoff iawn o saffrwm, yn enwedig mathau porffor fel *Crocus tommasinianus*.

Plannwch fylbiau saffrwm yn yr hydref. Er mwyn iddyn nhw dyfu ar eu gorau, plannwch nhw mewn pridd sy'n draenio'n dda. Peidiwch â'u plannu mewn tir trwm, allai achosi i'r bylbiau bydru. Mae saffrwm angen golau'r haul i flodeuo. Gallwch eu plannu o dan goed a llwyni sy'n noeth o ddail yn gynnar yn y gwanwyn.

Os bydd yr amodau'n iawn, dros amser bydd saffrwm yn ymledu'n naturiol i greu carped o flodau. Mae *Crocus tommasinianus* yn un o'r goreuon am ymledu'n naturiol. Ar lawnt, gadewch i ddail y saffrwm farw cyn torri'r gwair.

### Cyfardwf (*Symphytum*)



credyd llun: J Brentnall

Mae cyfardwf yn perthyn i deulu tafod yr ych. Bydd cacwn tafod byr a thafod hir, yn ogystal â gwenyn mêl a phryfed hofran, yn ymweld â blodau siâp tiwb y planhigyn yma. Mae larfa'r teigr ôl-adain goch (sef math o wyfyn) yn bwydo ar gyfardwf.

Gallwch dyfu mwy o gyfardwf (neu ei luosogi) trwy ddefnyddio toriadau gwraidd a gaiff eu cymryd yn ystod y gaeaf pan fydd y planhigyn yn cysgu, neu drwy ei hollti yn y gwanwyn.

Mae cyfardwf yn ymledu'n gyflym. Dyw 'Blocking 14' – sef math o gyfardwf sy'n hanu o Rwsia – ddim yn cynhyrchu hadau, ac felly mae'n llai tebygol o ymledu. Mae S*ymphytum ibericum* a *Symphytum* 'Hidcote Blue' yn tyfu'n llai egnïol, ac maen nhw'n addas i'w plannu mewn gerddi llai. Mae'r ddau fath yma'n dda am orchuddio'r ddaear hefyd.

Gallwch ddefnyddio dail cyfardwf i wneud hylif llawn potasiwm i fwydo planhigion.

## Llysiau'r Ysgyfaint (*Pulmonaria*)



credyd llun: Dr Natasha de Vere

Mae blodau cynnar lliwgar, siâp tiwb y planhigyn yma'n cynnig neithdar a phaill i gacwn a gwenyn unig, yn enwedig gwenyn traed blewog y blodau.

Dyma blanhigyn sy'n ymledu'n naturiol. Yn y gwanwyn, ar ôl iddo flodeuo, neu yn yr hydref, bob rhyw dair i bum mlynedd, mae modd codi clympiau mawr a'u hollti.

Mae'r planhigyn yma'n berffaith mewn borderi blodau, a gall orchuddio'r ddaear ar lethrau. Gall y blodau newid eu lliw o'r adeg y byddan nhw'n dod i'r golwg gyntaf a'r adeg y byddan nhw ar eu hanterth. Mae gan ambell blanhigyn batrymau ar ei ddail, ac mae hyn yn ychwanegu diddordeb.

## Grug (*Erica a Calluna*)



credyd llun: Dr Natasha de Vere

Yr enw cyffredin ar *Calluna ac Erica* yw grug. Mae yna nifer o fathau gwahanol ac maen nhw'n blodeuo ar wahanol adegau, yn cynnwys diwedd y gaeaf a dechrau'r gwanwyn, gan gynnig bwyd i wenyn mêl, cacwn, gwenyn unig a phryfed hofran.

Cofiwch ddewis grug sydd â blodau sengl lle gallwch weld y brigerau (neu'r *stamens*, sef rhannau gwrywaidd y blodyn sy'n dal y paill), a lle mae'n hawdd i drychfilod gyrraedd y neithdar. Mae gan rai mathau o rug (a elwir yn *bud-bloomers*) flodau nad ydyn nhw'n agor o gwbl, felly does dim modd i drychfilod gyrraedd y neithdar.

Yn gyffredinol, mae grug yn hoffi llawer o haul a phridd asid, llaith sy'n draenio'n rhwydd. Ond gall *Erica* oddef pridd trymach neu bridd calch. Maen nhw'n gweithio'n dda mewn gerddi cerrig, gwelyau sy'n unswydd ar gyfer grug, neu botiau. Bydd tocio'r sbrigau'n ysgafn ar ôl iddyn nhw orffen blodeuo yn arwain at dwf gwell y flwyddyn wedyn.

Gallwch luosogi grug drwy brigblannu yn ystod y gwanwyn neu drwy gymryd toriadau lled-aeddfed yn ystod yr haf.

## Blodau'r Gwynt



credyd llun: Dr Natasha de Vere

Mae gwenyn mêl, cacwn a phryfed hofran yn hoffi blodau siâp cwpan blodau'r gwynt. Gallwch ddewis o blith y blodyn gwyn brodorol, sef yr *Anemone nemorosa*, yr *Anemone blanda* sy'n dod mewn gwahanol fathau o las, gwyn neu binc, neu'r *Anemone × lipsiensis* melyn golau.

Mae'r *Anemone nemorosa* yn tyfu yn y gwyllt ar lawr coetiroedd collddail. Mae'n hoffi heulwen neu gysgod brith a phridd llaith sy'n cynnwys deunydd organig fel deilbridd. Mae'n well gan *Anemone blanda* bridd sy'n draenio'n dda.

Plannwch y bylbiau/cloron tua diwedd yr haf neu ddechrau'r hydref, a chofiwch eu dyfrio'n dda ar ôl eu plannu. Os yw'r bylbiau/cloron yn sych, rhowch nhw i socian mewn dŵr cyn eu plannu.

## Eirlysiau (*Galanthus*)



credyd llun: Dr Natasha de Vere

Mae eirlysiau'n cynnig neithdar a phaill hollbwysig i bryfed peillio sy'n mentro allan yn gynnar yn y tymor, fel gwenyn mêl a breninesau cacwn.

Plannwch eirlysiau pan fyddan nhw 'yn eu dail', h.y. ar ôl iddyn nhw orffen blodeuo ond pan fydd eu dail yn dal i fod yn wyrdd. Maen nhw'n hoffi pridd sy'n draenio'n dda gyda deunydd organig. Os yw eich pridd yn drwm, ychwanegwch raean ato.

Mae eirlysiau'n tyfu'n dda dan lwyni a choed collddail neu ar lawntiau lle gallan nhw ymledu. Hefyd, mae modd eu tyfu mewn potiau. Cofiwch eu hailbotio bob blwyddyn a pheidiwch â gadael iddyn nhw fynd yn sych dros yr haf.

## Crafanc-yr-arth (*Helleborus*)



credyd llun: Dr Natasha de Vere

Enw arall ar grafanc-yr-arth yw 'Rhosyn y Nadolig' neu 'Grafanc-yr-arth y Grawys'. Mae gwenyn mêl a chacwn yn arbennig yn hoff iawn ohonyn nhw. Dewiswch fathau sydd â blodau sengl sy'n cynnwys digonedd o baill a phyllau neithdar.

Mae'n well gan y planhigyn yma bridd llaith a ffrwythlon sy'n draenio'n dda, gyda rhywfaint o gysgod. Os plannwch grafanc-yr-arth mewn gwely ar ogwydd, fe fydd hyn yn gwella'r draenio ac fe fydd modd ichi edrych y tu mewn i'r blodau siglog.

Mae modd tyfu crafanc-yr-arth o hadau newydd eu casglu ar ddiwedd eu tymor (tua mis Mai). Hefyd, mae modd lluosogi'r planhigyn trwy ei hollti'n gynnar yn y gwanwyn neu yn yr hydref. Gwisgwch fenig wrth afael mewn planhigion crafanc-yr-arth rhag ofn i'r sudd achosi llid ar eich croen.

## Mahonias



credyd llun Dr Natasha de Vere

Mae mahonias yn llwyni hawdd gofalu amdanyn nhw ac maen nhw'n tyfu'n gyflym. Mae ganddyn nhw flodau persawrus, melyn llachar rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth. Maen nhw'n cynnig bwyd cynnar i wenyn, a gall rhai ohonyn nhw fod yn hanfodol i gacwn sy'n effro yn y gaeaf pan fydd blodau eraill yn brin.

Mae mahonias yn tyfu'n llwyddiannus mewn pridd llaith sy'n draenio'n dda. Peidiwch â'u plannu mewn safle sy'n agored i wyntoedd oer. Fe fydd eu huchder a'u hymlediad yn dibynnu ar sut fath o fahonias ydyn nhw. Gallan nhw dyfu rhwng 1m a 3m.

Os ydych eisiau tyfu gwrych i gadw'ch eiddo'n ddiogel, fe fydd eu dail pigfain, bytholwyrdd o fantais fawr. I annog twf, tociwch bob yn ail blwyddyn.

Mae modd lluosogi mahonias trwy eu brigblannu neu trwy wneud toriadau oddi ar eu coesynnau yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf.



# CANOL Y TYMOR

## Llwyni Mwyar Duon a Mafon (*Rubus*)



credyd llun: Dr Natasha de Vere

Fel arfer, mae modd dod o hyd i lwyni mwyar duon mewn coedwigoedd, llethrau, rhostiroedd, gwrychoedd, twyni tywod a llecynnau mwy gwyllt mewn gerddi ac ati. Er nad yw llwyni mwyar duon yn blanhigion gardd addurnol, maen nhw wedi'u cynnwys ar y rhestr yma gan eu bod yn ffynhonnell fwyd bwysig i bryfed peillio. Maen nhw'n cynnig neithdar i gacwn, gwenyn mêl, gwenyn unig, pryfed hofran a gloÿnnod byw, yn cynnwys y brithribin brown, y fantell garpiog, gweirlöyn y perthi, iâr fach y graig, y gwyn blaen oren, gweirlöyn y glaw a llawer mwy. Hefyd, maen nhw'n cynnig bwyd i lindys, fel lindys gwyfyn y cadno. Os oes gennych le, gadewch i lwyni mwyar duon dyfu yn eich gardd neu eich man cymunedol.

Mae modd cael gafael ar lwyni mwyar duon garddwrol sydd heb bigau. Gallwch eu tyfu ar hyd ffensys, delltwaith neu weiars.

Mae llwyni mafon hefyd yn fath o Rubus.

## Planhigion *Phacelia*



credyd llun: Dr Natasha de Vere

Mae planhigion *Phacelia tanacetifolia* yn cynnig llawer o baill a neithdar i amrywiaeth eang o bryfed peillio, ac mae cacwn yn arbennig o hoff ohonyn nhw. Dyma blanhigion sy'n berffaith mewn borderi anffurfiol neu erddi bywyd gwyllt, ac mae modd eu tyfu gyda blodau unflwydd eraill (fel glas yr ŷd (*Centaurea cyanus*)).

Mae planhigion *Phacelia tanacetifolia* yn sefydlu'n gyflym a gallwch eu defnyddio i atal chwyn neu fel gwrtaith gwyrdd gan eu bod yn dal nitrogen. Os byddwch yn eu defnyddio fel gwrtaith gwyrdd, peidiwch â phalu'r cyfan i mewn i'r pridd yn y gwanwyn; yn hytrach, gadewch i lecyn neu ddau flodeuo.

Mae mathau eraill o *Phacelia* i'w cael hefyd, fel *Phacelia viscida* a *Phacelia campanularia*. Mae planhigion *Phacelia campanularia* yn llai, ac maen nhw'n addas i'w tyfu mewn borderi neu botiau.

## Y Bengaled (*Centaurea*)



Yng Nghymru, mae modd dod o hyd i'r bengaled (*Centaurea nigra*) mewn glaswelltiroedd, yn cynnwys dolydd, ymylon ffyrdd a lawntiau. Mae gloÿnnod byw, gan gynnwys y glesyn cyffredin, y gweirlöyn cleisiog, gweirlöyn y ddôl, y gwibiwr mawr a'r gwibiwr bach, yn hoff iawn o'i neithdar. Hefyd, mae'n denu cacwn, gwenyn mêl a phryfed hofran. Byddai'n berffaith mewn dôl blodau gwyllt.

Mae'n tyfu'n ddidrafferth o hadau. Yn y gwyllt, mae genynnau'r bengaled yn amrywio o le i le, ac yn ddelfrydol dylech ddefnyddio hadau sy'n tarddu o'ch ardal.

Mae mathau eraill o'r bengaled yn cynnwys y bengaled fawr, glas yr ŷd, y benlas luosflwydd, y bengaled 'John Coutts' a'r bengaled benfawr (*Centaurea macrocephala*).

Byddai pob un o'r planhigion yma'n wych mewn gwelyau, borderi neu botiau/cafnau.

Mae blodau'r bengaled yn debyg i ysgall. Mae ysgall hefyd yn dda i bryfed peillio. Bydd llecyn heulog sy'n cynnwys ysgall yn siŵr o ddenu gloÿnnod byw a gwenyn.

## Milddail (*Achillea*)



credyd llun: Dr Natasha de Vere

Mae modd dod o hyd i blanhigion milddail brodorol (*Achillea millefolium*) mewn glaswelltiroedd, yn cynnwys lawntiau, ymylon ffyrdd a dolydd. Maen nhw'n ddeniadol i bryfed peillio, yn enwedig pryfed hofran.

Mae modd tyfu planhigion milddail o hadau ac maen nhw'n dda am hunan-hadu. Hefyd, maen nhw'n gallu ymledu o dan y ddaear a dydyn nhw ddim gwaeth o gael eu torri gyda'r lawnt. Peidiwch â phlannu planhigion *Achillea millefolium* mewn gwelyau blodau gan eu bod yn ymledu'n gyflym.

Ond mae modd cael gafael ar fathau garddwrol nad ydyn nhw'n ymledu. Mae'r mathau yma'n hardd iawn ac yn amrywio o ran lliw a maint, ac maen nhw'n ddelfrydol ar gyfer borderi cymysg neu forderi blodau.



## Planhigion *Allium*



credyd llun: Dr Natasha de Vere

Mae planhigion *Allium* yn ddeniadol i amryw byd o bryfed peillio, yn enwedig cacwn a gwenyn mêl. Mae'r mathau y gallwch eu bwyta – sef nionod/winwns, sialóts, cennin, garlleg a chennin syfi – yn gyfarwydd i bobl sy'n tyfu llysiau. Trwy adael i ambell un flodeuo, byddwch yn cynnig bwyd i bryfed peillio.

Ond mae yna nifer o blanhigion Allium blodeuol addurnol na allwch chi mo'u bwyta. Plannwch y bylbiau yn yr hydref er mwyn cael blodau siâp pom-pom yr haf wedyn ac am flynyddoedd i ddod. Trwy beidio â thorri'r pennau hadau, gall planhigion Allium ychwanegu uchder a strwythur at welyau a borderi, hyd yn oed trwy fisoedd y gaeaf. Maen nhw'n tyfu'n dda mewn cafnau neu botiau hefyd.

Mae *Allium paradoxum* (cennin prinflodeuog) ac *Allium triquetrum* (garlleg trionglog) yn ymledu'n gyflym ac yn gallu cael y llaw uchaf ar ein planhigion brodorol. Caiff y rhain eu rhestru yn Atodlen 9 o'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, ac mae hi'n drosedd plannu neu dyfu'r rhywogaethau yma yn y gwyllt.

## Celyn y Môr (*Eryngium*)



credyd llun: Dr Natasha de Vere

Mae yna sawl math o *Eryngium* sy'n denu amrywiaeth o drychfilod, yn cynnwys pryfed hofran. Bydd cadw'r hen bennau blodau ar y planhigion yn ychwanegu diddordeb dros y gaeaf.

Tyfwch y planhigion yma yn llygad yr haul ac mewn pridd gwael sy'n draenio'n dda iawn. Er mwyn helpu'r pridd i ddraenio, rhowch dipyn o raean yng ngwaelod y twll cyn plannu'r planhigyn. Dyw planhigion *Eryngium* ddim angen llawer o ddŵr ac fe fyddan nhw'n tyfu'n dda wrth fôn wal gynnes, mewn border neu mewn gardd raean.

Gallwch wneud toriadau gwraidd yn gynnar yn y gwanwyn a'u defnyddio i dyfu planhigion newydd, neu gallwch eu tyfu o hadau.

## Ffenigl (*Foeniculum vulgare*)



credyd llun: Dr Natasha de Vere

Mae ffenigl yn ddeniadol i amrywiaeth eang o drychfilod, yn enwedig pryfed hofran, chwilod a gwenyn unig.

Perlysieuyn tal yw ffenigl, ac mae blas hadau anis ar ei ddail a'i hadau. Byddai'n berffaith yng nghanol gwelyau perlysiau, a hefyd byddai'n drawiadol yng nghanol neu yng nghefn borderi blodau mawr. Mae'r math 'Purpureum' â dail lliw efydd yn addurnol iawn.

Gallwch gasglu'r hadau o'r rhiant-blanhigyn ystod yr hydref a'u tyfu mewn pot o dan orchudd yn y gwanwyn. Plannwch nhw y tu allan ym mis Mai. Rhowch ddigon o le (45cm) i'r planhigion, oherwydd maen nhw'n gallu tyfu hyd at 1.8m o uchder. Mae ffenigl yn tueddu i hunan-hadu. Gallwch chwynnu'r eginblanhigion diangen â llaw, neu eu codi a'u tyfu yn rhywle arall fel planhigion newydd.

## Gwiberlys (*Echium vulgare*)



credyd llun: Matthew Pollard

Mae cacwn (cacwn cynffonlwyd a chacwn cynffongoch), glöynnod byw (gwibwyr mawr ac ieir bach tramor), gwenyn mêl a saerwenyn coch yn hoff iawn o wiberlys. Planhigyn brodorol yw e, ac mae'n hoffi tir wedi'i droi. Byddai'n berffaith mewn dolydd bach sy'n draenio'n dda, gerddi bywyd gwyllt, borderi blodau heulog (tua'r ffrynt neu'r canol) neu gafnau/potiau.

Bydd yn cymryd dwy flynedd i dyfu'n i'w lawn faint a bydd yn blodeuo ac yn marw yn ei ail flwyddyn. Ar ôl iddo flodeuo, os gadewch i'r hadau ddatblygu a pheidio â thorri'r coesynnau, bydd yr hadau'n hau ohonyn nhw'u hunain ar dir noeth.
Fel arall, torrwch blanhigyn yn yr hydref a'i storio mewn bag papur. Yna, tua diwedd y gaeaf, tynnwch y planhigyn sych o'r bag, ei osod yn fflat mewn cafn hadau a'i orchuddio'n ysgafn â chompost. Yna, bydd modd ichi blannu'r eginblanhigion a ddaw i'r golwg.

## Mintys y Gath (*Nepeta*)



credyd llun: Dr Natasha de Vere

Nid cathod yn unig sy'n hoffi mintys y gath, ond pryfed peillio hefyd. Mae'n tyfu mewn pridd sy'n draenio'n dda, ac mae'n blanhigyn hawdd gofalu amdano.

Mae yna wahanol fathau o fintys y gath sy'n tyfu i wahanol uchder, ac maen nhw'n berffaith mewn borderi, gwelyau neu gafnau/potiau. Gall y mathau sy'n tyfu'n isel orchuddio'r ddaear, neu gallwch eu tyfu mewn gerddi cerrig. Mae'r mathau ymlusgol yn hyfryd mewn basgedi crog a bocsys ffenestri, neu'n rhaeadru dros ymylon cafnau/potiau.

Bydd torri rywfaint ar y planhigion ar ôl iddyn nhw flodeuo am y tro cyntaf (Mehefin-Gorffennaf) yn eu hannog i flodeuo eto ddiwedd yr haf. Gadewch y dail ar y planhigion dros y gaeaf er mwyn amddiffyn eu coron.

Gallwch eu lluosogi trwy hollti planhigion mawr yn y gwanwyn neu'r hydref. Hefyd, gallwch wneud toriadau pren meddal yn gynnar yn y gwanwyn, neu doriadau lled-aeddfed ar ddechrau'r hydref.

## Penrhudd ac Oregano (*Origanum*)



credyd llun: J Brentnall

*Origanum vulgare* yw ein penrhudd gwyllt brodorol. Mathau eraill a gaiff eu tyfu'n gyffredin yw penrhudd yr ardd (*Origanum majorana*) ac *Origanum onites*. Maen nhw'n cynnig bwyd i bryfed peillio, yn cynnwys gwenyn a gloÿnnod byw. Defnyddiwch ddail i ychwanegu blas at bitsas a sawsiau pasta.

Ar ôl iddyn nhw sefydlu, maen nhw'n gallu goddef sychder yn gymharol dda.
Gall y gwreiddiau bydru os cân nhw ormod o ddŵr. Er mwyn eu hannog i dyfu, torrwch hen lystyfiant cyn iddynt ailddechrau tyfu ar ddechrau'r gwanwyn.
Dyw penrhudd yr ardd ddim cystal â mathau eraill am oddef oerni.

Dyma berlysiau eraill mae pryfed peillio yn gwirioni arnyn nhw: saets (*Salvia*), teim (*Thymus*), mintys (*Mentha*) a rhosmari (*Rosmarinus*).

Tyfwch ardd berlysiau mewn basgedi crog, potiau, bocsys ffenestri, gwelyau neu erddi cyfan. Mae perlysiau'n brydferth os plannwch chi nhw mewn gwelyau neu gafnau/potiau gyda blodau eraill. Mae mintys yn ymledu'n gyflym. Er mwyn ceisio'i atal rhag ymledu, plannwch ef mewn hen fwced heb waelod.

## DIWEDD Y TYMOR

### Planhigion *Astrantia*



credyd llun: Dr Natasha de Vere

Mae planhigion *Astrantia* yn denu gloÿnnod byw, gwenyn unig a phryfed hofran. Maen nhw'n berffaith mewn gwelyau, borderi, potiau neu gafnau.

Er mwyn ymestyn oes y blodau, torrwch y pennau marw'n rheolaidd. Fel arall, ym mis Gorffennaf ar ôl iddyn nhw flodeuo am y tro cyntaf, torrwch y planhigion cyfan bron at y ddaear er mwyn cael cnwd hwyr. Tua diwedd y tymor, gadewch y pennau blodau ar y planhigion er mwyn ychwanegu diddordeb dros y gaeaf.

Mae planhigion *Astrantia* yn gallu hunan-hadu. Casglwch yr hadau yn yr hydref pan fydd y pennau blodau'n sych. Ewch ati i'w hau ar gompost a gorchuddiwch nhw â haen denau o raean garddio. Gallwch eu gadael allan dros y gaeaf er mwyn eu hannog i egino. Fel arall, storiwch yr hadau a'u hau yn y gwanwyn. Ar ôl i'r planhigion sefydlu, gallwch godi clympiau mawr, eu hollti a'u plannu yn y gwanwyn.

### Blodau Pigwrn (*Rudbeckia*)



credyd llun: Dr Natasha de Vere

Mae blodau pigwrn yn ffynhonnell neithdar wych i drychfilod, yn cynnwys gwenyn, pryfed hofran a gloÿnnod byw. Maen nhw'n berffaith mewn borderi, gwelyau neu gafnau/potiau – ond dewiswch rai â blodau sengl, oherwydd dyw'r mathau sydd â blodau dwbl ddim yn addas i bryfed peillio. Torrwch y blodau ar ôl iddyn nhw wywo er mwyn i'r planhigion flodeuo mor hir â phosibl.

Mae modd cael gafael ar flodau pigwrn lluosflwydd (sy'n blodeuo'r naill flwyddyn ar ôl y llall). Hefyd, mae modd cael gafael ar flodau pigwrn unflwydd gweddol wydn. Yn y gwanwyn, gallwch eu tyfu o hadau o dan orchudd mewn ystafell gynnes. Arhoswch i'r rhew ddiflannu cyn eu plannu allan. Fel arall, gallwch eu hau'n syth ar wely parod ym mis Mai.

Ar ôl sawl blwyddyn, gallwch eu codi a'u hollti yn y gwanwyn neu'r hydref.



### Planhigion *Helenium*



credyd llun: Dr Natasha de Vere

Mae planhigion *Helenium*, a gaiff eu galw hefyd yn flodau tisian, yn cynnig bwyd i bryfed peillio yn hwyr yn y tymor, yn enwedig i wenyn a phryfed hofran. Torrwch y blodau marw'n rheolaidd er mwyn annog y planhigion i flodeuo eto. Ar gyfer mathau sy'n tyfu'n dal, byddai'n syniad da ichi osod stanciau o'u hamgylch yn y gwanwyn, i'w dal i fyny. Os ydych yn byw yn ne Cymru, torrwch nhw i oddeutu hanner eu maint ddiwedd mis Mai neu ddechrau mis Mehefin; os ydych yn byw yng ngogledd Cymru, gwnewch hyn yn nes ymlaen ym mis Mehefin. 'Chelsea Chop' yw'r enw a roddir ar hyn, a bydd yn rheoli pa mor dal y byddan nhw'n tyfu. Ar ôl eu torri, cofiwch eu bwydo a'u dyfrio. Bydd hyn yn gwneud iddyn nhw flodeuo'n hwyrach. Os oes gennych lawer o blanhigion *Helenium*, tociwch ambell un ohonyn nhw er mwyn i rai flodeuo'n gynnar ac eraill flodeuo'n hwyrach. Gallwch roi 'Chelsea Chop' i blanhigion *Rudbeckia* hefyd.

Ar ôl i'r planhigion dyfu'n rhy drwchus, gallwch eu hollti a'u tyfu yn rhywle arall yn yr hydref neu'r gwanwyn. Ar ddechrau'r gwanwyn, gallwch gymryd toriadau gwaelodol o dyfiant newydd sy'n tyfu ar ymylon gwaelod y planhigyn.

### Blodau Mihangel



credyd llun: Abigail Lowe

Mae blodau Mihangel yn blodeuo'n hwyr iawn i dymor yr hydref ac yn cynnig bwyd i loÿnnod byw, cacwn a phryfed hofran. Yn fotanegol, caiff rhywogaethau Ewrop eu galw'n *Aster* a chaiff rhywogaethau Gogledd America eu galw'n *Symphyotrichum*.

Gall rhai mathau o flodau Mihangel ymledu'n gyflym a chreu problem. Dyma fathau nad ydyn nhw'n ymledu'n gyflym: cyltifarau *Aster amellus*, cyltifarau *Symphyotrichum novae-angliae*, blodyn Mihangel hybrid ''Mönch' (*Aster x Frikartii 'Mönch'*).

Maen nhw'n hyfryd mewn borderi, a thrwy dorri'r blodau sydd wedi gwywo bydd modd annog y planhigion i flodeuo eto. Efallai y bydd yn rhaid ichi osod stanciau i ddal y rhai mawr i fyny.

Beth am greu planhigion newydd trwy wneud toriadau gwaelodol neu doriadau pren meddal yn y gwanwyn? Ar ôl i'r planhigion sefydlu gallwch eu hollti (bob rhyw dair blynedd) yn y gwanwyn ar ôl i dyfiant newydd ddod i'r golwg.

## Clafrllys y Maes (*Knautia arvensis*) / Tamaid y Cythraul (*Succisa pratensis*)



credyd llun: Lucy Arnold-Matthews

Mae'r ddau blanhigyn brodorol yma – sef Knautia arvensis (clafrllys y maes) a Succisa pratensis (tamaid y cythraul) – yn cynnig neithdar a blodau llawn paill yn hwyr yn y tymor i amrywiaeth o drychfilod, yn enwedig gloÿnnod byw a gwenyn. Mae eu dail yn fwyd i lindys y gwalch-wyfyn gwenynaidd ymyl gul. Ar damaid y cythraul mae lindys britheg y gors yn bwydo.

Mae'n well gan glafrllys y maes amodau alcalin. Yn y gwyllt, mae'r planhigyn yma i'w weld yn bennaf mewn glaswelltiroedd calchaidd a niwtral. Byddai'n berffaith mewn borderi, gwelyau, gerddi neu ddolydd blodau gwyllt.

Mae modd dod o hyd i damaid y cythraul mewn glaswelltiroedd llaith, corsiog ac ar lannau afonydd. Mae'n wych ar gyfer llecynnau gwlypach yr ardd, yn cynnwys gerddi cors.

Blodyn gwyllt brodorol arall yw'r clafrllys bach (*Scabiosa columbaria*), ac mae hwn hefyd yn un da i bryfed peillio. Mae'n blodeuo ynghynt na chlafrllys y maes a thamaid y cythraul. Os oes gennych rywfaint o le mewn llecyn sy'n draenio'n dda, fel gardd gerrig, wal neu forder, bydd trychfilod yn siŵr o ddod draw i fwynhau'r blodau tlws.

Mae modd tyfu'r planhigion hyn o hadau neu gallwch eu prynu ar ffurf plygiau.

## Hocys (*Malva*)



credyd llun: Dr Natasha de Vere

Mae hocys mwsg (*Malva moschata*) a hocys cyffredin (*Malva sylvestris*) yn blanhigion gardd brodorol. Mae cacwn yn defnyddio'u blodau i gael paill. Mae gwenyn mêl yn hoff iawn ohonyn nhw hefyd.

Byddai hocys yn berffaith mewn borderi cymysg, gerddi bwthyn neu erddi blodau gwyllt. Mae ganddyn nhw flodau porffor pigfain sy'n 1.5m o uchder, ac maen nhw'n drawiadol iawn yng nghefn borderi.

Mae modd eu tyfu'n rhwydd o hadau, ac maen nhw'n hunan-hadu'n ddidrafferth hefyd. Gallwch brynu gwahanol fathau o hocys cyffredin mewn catalogau. Ewch ati yn yr hydref i'w hau mewn gwely hadau parod a'u gorchuddio â haen denau o bridd, cyn i'r rhew gyrraedd, neu eu hau o dan do mewn lle cynnes rhyw wyth wythnos cyn y rhew olaf. Plannwch nhw allan pan fydd y rhew wedi hen ddiflannu.

Fel gyda hocys, yn achos hocys bendigaid (*Alcea*) â blodau sengl mae rhan ganol y blodyn yn agored er mwyn i bryfed peillio allu cyrraedd y bwyd. Gall hocys bendigaid dyfu hyd at 2m ac maen nhw'n berffaith yng nghefn borderi heulog. Mae modd eu tyfu'n rhwydd o hadau. Bydd planhigion a gaiff eu hau eleni yn blodeuo'r flwyddyn nesaf, ac ar ôl iddyn nhw sefydlu fe fyddan nhw'n hunan-hadu.

Mae rhwd yn gallu effeithio ar hocys a hocys bendigaid, gan adael smotiau oren ar ochr isa'r dail. Mae modd rheoli rhwd trwy dorri'r dail dan sylw yn syth ar ôl i chi sylwi ar smotiau rhwd arnyn nhw. Yn yr hydref, casglwch y dail marw sydd wedi hel o amgylch y planhigion, a'u llosgi.

## Iorwg (*Hedera helix*)



Mae iorwg brodorol (*Hedera helix*) yn tyfu'n dda ar hyd a lled Cymru. Mae modd dod o hyd iddo mewn coetiroedd a gwrychoedd, a hefyd ar waliau. Mae ei ddail yn wyrdd drwy gydol y flwyddyn ac mae'r planhigion aeddfed yn cynhyrchu blodau rhwng mis Medi a mis Tachwedd. Mae iorwg yn fwyd i larfa'r glesyn celyn (g*löyn byw)* ac i larfa sawl math o wyfyn. Dyma un o'r ffynonellau neithdar olaf i loÿnnod byw, gwenyn, pryfed hofran ac amrywiaeth eang o drychfilod eraill, yn cynnwys ymwelwyr y nos fel gwyfynod. Mae hyn yn bwysig, oherwydd mae'r trychfilod yma angen magu stôr o fraster cyn gaeafgysgu. Mae trychfilod, gan gynnwys glöyn byw melyn y rhafnwydd, yn defnyddio iorwg fel lloches sych i aeafgysgu.

Mae iorwg yn addas i'w dyfu ar hen goed, siediau, pagodâu neu ffensys. Mae'n cynhyrchu gwreiddiau yn yr awyr ar hyd ei goesyn, felly does dim angen ei glymu yn ei le. Ond os yw'n tyfu ar waliau, gwnewch yn siŵr bod y morter a'r brics mewn cyflwr da, oherwydd gall dyfu mewn craciau ac achosi difrod. Mae rhai mathau o eiddew gardd coediog, nad yw'n dringo, (e.e. *Hedera helix 'Arborescens'*). Gallwch hefyd dorri o goesynnau eiddew coediog, brodorol ac ni fydd yn dychwelyd i'r ffurf ddringo. Dydy sudd iorwg ddim yn cytuno â chroen rhai pobl felly gwisgwch fenig os ydych chi'n sensitif.

## Briweg Iâr Fach yr Haf
## (*Hylotelephium spectabile*)



Yr hen enw ar friweg iâr fach yr haf (*Hylotelephium spectabile*) oedd *Sedum spectabile*. Mae gan y planhigyn yma ddail llawn sudd a blodau sydd wrth fodd cacwn, gwenyn mêl a gloÿnnod byw.

Planhigyn lluosflwydd yw hwn. Mae'n hoffi pridd sy'n draenio'n dda iawn, ac ar ôl iddo sefydlu mae'n dda am oddef sychder. Gallwch adael y pennau blodau er mwyn ychwanegu diddordeb dros y gaeaf. Byddai'n berffaith mewn gwelyau, borderi, potiau, graean neu erddi cerrig.

Yn y gwanwyn, mae modd hollti planhigion mawr bob rhyw dair neu bedair blynedd. Hefyd, ar ddechrau'r haf gallwch gymryd toriadau pren meddal oddi ar egin nad ydyn nhw'n blodeuo.

## Dahlias Blodau Sengl



credyd llun: Dr Natasha de Vere

Blodyn fflat gyda'r petalau wedi'u gosod o amgylch disg yn y canol – dyna yw dahlia blodyn sengl. Oddi mewn i'r ddisg fe welwch resi o frigerau gyda phaill melyn/oren o amgylch yr ymyl allanol. Mae'r blodau fflat agored yn berffaith i bryfed peillio, yn enwedig cacwn, oherwydd maen nhw'n gallu cyrraedd y paill a'r neithdar yn rhwydd.

Ond dyw hyn ddim yn wir am ddahlias blodau dwbl. Mae haenau cymhleth eu petalau'n rhwystro trychfilod rhag cyrraedd y bwyd. Dyw'r rhannau blodeuol gwrywaidd ddim yn cynnwys paill bob tro, a hynny gan eu bod wedi'u haddasu er mwyn ceisio creu'r argraff o fwy o betalau.

Mae dahlias blodau sengl yn hyfryd mewn borderi cymysg, potiau neu gafnau mawr. Plannwch y cloron pan fydd y rhew wedi hen ddiflannu. Maen nhw'n weddol wydn, ond bydd angen eu hamddiffyn dros y gaeaf. Mewn ardaloedd mwynach ger yr arfordir gallwch eu gadael yn y ddaear dros y gaeaf, ond cofiwch amddiffyn eu coronau gyda haen drwchus o domwellt sych, fel gwellt neu ddail. Fel arall, ar ôl i'r dail wywo codwch y cloron a'u glanhau. Rhaid eu storio yn rhywle fydd ddim yn rhewi, a gorchuddiwch nhw â rhywfaint o gompost neu dywod llaith.

## Ferfain yr Ariannin
## (*Verbena bonariensis*)



credyd llun: Dr Natasha de Vere

Mae planhigion ferfain yr Ariannin (*Verbena bonariensis*) yn ffynhonnell neithdar wych i lu o bryfed peillio. Bydd y planhigion yma'n ychwanegu uchder at welyau neu forderi. Oherwydd eu strwythur agored, wnân nhw ddim cuddio planhigion sydd wedi'u plannu y tu ôl iddyn nhw. Mae modd tyfu ferfain yr Ariannin mewn cafnau neu botiau mawr. Mae yna fath byrrach hefyd, o'r enw 'Lollipop'.

Bydd ferfain yr Ariannin yn hunan-hadu. Gallwch dyfu planhigion newydd o hadau a gaiff eu casglu yn yr hydref. Tua mis Mai, ewch ati i hau'r hadau'n syth ar wely parod, gan eu gorchuddio â haen o bridd. Fel arall, beth am hau'r hadau o dan wydr mewn lle cynnes rhyw wyth i ddeuddeg wythnos cyn y rhew olaf. Plannwch nhw allan ar ôl i'r rhew hen ddiflannu. Ym mis Medi, gallwch gymryd toriadau oddi ar egin anflodeuol sy'n tyfu ar ochr y planhigion.

Dyw planhigion ferfain yr Ariannin ddim yn hollol wydn. Gall haen o domwellt sych eu hamddiffyn i ryw raddau rhag y rhew. Dros y gaeaf, gadewch y coesynnau ar y planhigion a'u tocio ar ôl i'r egin ddod i'r golwg yn y gwanwyn.

| TABL CRYNO | |
|---|---|
| **Dechrau'r tymor** | |
| *Prunus* | Afalau |
| Saffrwm | Cyfardwf |
| Llysiau'r Ysgyfaint | Grug |
| Blodau'r Gwynt | Eirlys |
| Crafanc-yr-arth | Mahonia |
| **Canol y tymor** | |
| Llwyni mwyar duon a mafon | Y Bengaled ac ysgall |
| *Phacelia* | Milddail |
| Planhigion Allium | *Eryngium* |
| Ffenigl | Gwiberlys |
| Perlysiau | Mintys y gath |
| **Diwedd y tymor** | |
| Planhigion *Astrantia* | Blodau Pigwrn |
| Planhigion *Helenium* | Planhigion Aster |
| Clafrllys y Maes | Hocys a Hocys Bendigaid |
| Iorwg | Briweg Iâr Fach yr Haf |
| Dahlias blodau sengl | Ferfain yr Ariannin *(Verbena bonariensis)* |

# AWGRYMIADAU ARDDERCHOG AR GYFER GWNEUD EICH LLE'N GYFEILLGAR I BRYFED PEILLIO

- Byddwch yn fwy gwyllt ac yn llai taclus! Efallai fod gennych ffynonellau bwyd neu gysgod da i bryfed peillio yn barod, er enghraifft, llecynnau o chwyn/blodau gwyllt, mieri, iorwg, dant y llew, meillion, danadl poethion ac ysgall. Yn ystod y gaeaf, gall coesynnau a phennau hadau marw gynnig lloches i drychfilod.
- Peidiwch â thorri'r glaswellt mor aml (tudalennau 21-23).
- Llecyn heulog cysgodol yw'r lle gorau i dyfu eich planhigion pryfed peillio.
- Trwy blannu blociau o'r un math o flodau byddwch yn arbed egni ac amser i bryfed peillio, oherwydd bydd modd iddyn nhw symud o flodyn i flodyn yn gyflymach.
- Dewiswch flodau y gall trychfilod gasglu paill a neithdar ohonyn nhw'n rhwydd e.e. blodau agored neu siâp cloch. Peidiwch â dewis planhigion â blodau dwbl.
- Mae mathau hen ffasiwn o blanhigion yn tueddu i gynnwys mwy o neithdar na mathau modern neu hybrid.
- Mae lindys yn troi'n loÿnnod byw ac yn wyfynod. Tyfwch blanhigion i lindys eu bwyta – mae awgrymiadau ar y rhestr o blanhigion sy'n Gyfeillgar i Wenyn.[4] Cofiwch eich bod yn tyfu'r planhigion hyn i gael eu bwyta, felly, peidiwch â mathru neu symud y lindys.
- Mae blanhigion sydd ag arogl persawrus gyda'r nos, fel gwyddfid, jasmin, melyn yr hwyr, croes yr hwyr, *Nicotiana* a murwyll yr hwyr yn dda i wyfynod.
- Peidiwch â defnyddio cemegau a all wneud niwed i bryfed peillio. Mae modd rheoli plâu, chwyn a chlefydau heb ddefnyddio plaladdwyr, er enghraifft, trwy chwynnu â llaw yn hytrach na chwistrellu chwynladdwr.
- Manteisiwch i'r eithaf ar fannau bach trwy dyfu planhigion ar ddelltwaith, ar ffrâm ddringo, mewn basged grog neu mewn bocs ffenestr.
- Mewn gerddi llysiau a rhandiroedd, gadewch i rai o'ch cnydau bresych, eich cnydau nionod/winwns a'ch cnydau gwreiddlysiau, fel pannas a moron, flodeuo.
- Gadewch i rywfaint o'ch tail gwyrdd neu eich 'cnydau gorchudd', fel *Phacelia*, gwenith yr hydd a meillion, flodeuo oherwydd eu neithdar buddiol.
- Os oes gennych wrychoedd, peidiwch â thorri pob un yn yr un flwyddyn er mwyn gwneud yn siŵr y bydd yna wastad wrychoedd heb eu torri i gynnig bwyd, mannau dodwy wyau, a safleoedd gaeafgysgu a nythu.
- Ddylech chi ddim plannu planhigion addurnol neu blanhigion gardd estron mewn ardaloedd naturiol neu led-naturiol.
- Yn yr hydref, plannwch fylbiau/cloron sy'n dda ar gyfer pryfed peillio er mwyn iddyn nhw flodeuo y gwanwyn wedyn, er enghraifft, eirlysiau, saffrwm, allium a chlychau dulas yr ardd (*Muscari armeniacum*). Dyw cennin Pedr a thiwlipau ddim cystal i bryfed peillio.
- Os ydych chi am hau hadau blodau gwyllt, cofiwch baratoi'r pridd yn gyntaf.

[4] www.biodiversitywales.org.uk/Content/Upload/Bee-friendly-plant-list-CY.pdf



# PEIDIWCH Â THORRI'R GLASWELLT MOR AML – 'IDDYN NHW'

Un o'r ffyrdd symlaf o gynnig bwyd i bryfed peillio yw gadael i flodau dyfu mewn llecynnau glaswelltog.[5] Mae torri'r glaswellt yn llai aml a chasglu'r glaswellt yn creu cynefin gwell 'Iddyn 'Nhw': infertebratau, adar, mamaliaid bach, amffibiaid ac ymlusgiaid. Mae gan **'Iddyn Nhw'**[6] adnoddau i egluro pam mae hyn yn bwysig.

Dyw hyn ddim yn golygu bod yn rhaid ichi adael i'r lle dyfu'n hollol wyllt. Dyma rai ffyrdd o newid sut rydych chi'n torri eich glaswellt – fe fyddan nhw o help mawr i bryfed peillio.

- **Gadewch i'ch lawnt flodeuo yn y gwanwyn** – Trwy beidio â thorri'r glaswellt tan ddiwedd y gwanwyn, fe fydd planhigion fel llygad y dydd a dant y llew yn cael cyfle i flodeuo.
- **Peidiwch â thorri'r glaswellt mor aml** – Rhwng Ebrill a Thachwedd, torrwch rannau o'ch lawnt mewn cylchdro o 4 wythnos, gan osod eich peiriant torri glaswellt ar 2.5-5cm (1-2 modfedd). Fe fyddwch yn torri ambell flodyn, ond fe fyddan nhw'n siŵr o dyfu'n ôl yn gyflym. Trwy dorri gwahanol rannau o'r lawnt mewn cylchdro, fe fydd rhai llecynnau wastad yn eu blodau. Mae gwaith ymchwil Plantlife,[7] 'Every Flower Counts', wedi darganfod bod hyn yn rhoi cyfle i blanhigion 'glaswellt byr', fel llygad y dydd a meillion gwyn, flodeuo yn eu lluoedd, gan arwain at gynhyrchu deg gwaith cymaint o neithdar. Os ydych yn dal i fod eisiau cerdded ymysg y blodau yn eich dôl, ac os oes digon o le, gallech chi dorri llwybrau cerdded trwy'r ddôl.

## OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Ar ddechrau'r gwanwyn, mae un frenhines gacwn angen bwydo ar 6000 o flodau y dydd er mwyn cael digon o egni i fagu ei rhai bach! Bydd blodau sy'n ymddangos yn gynnar yn y gwanwyn, fel dant y llew, yn cynnig ffynhonnell fwyd bwysig iawn iddi.

## OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Mae pys-y-ceirw yn blanhigyn bwyd i larfa sawl glöyn byw a gwyfyn hardd a phrin. Fel meillion coch, mae paill pys-y-ceirw yn cynnwys llawer o brotein. Mae'r ddau blanhigyn yn bwysig iawn i gacwn a gwenyn unig yn ystod ein hafau gwlyb.

[5] pollinators.ie/resources/
[6] www.llyw.cymru/iddyn-nhw-pecyn-cymorth-i-randdeiliad
[7] www.plantlife.org.uk/uk

- **Beth am greu llecyn, stribed neu ddôl blodau** – Er mwyn cael glaswelltir sy'n llawn blodau gwyllt, mae planhigion angen cwblhau eu cylch bywyd llawn. Maen nhw angen cael cyfle i dyfu, blodeuo a bwrw eu hadau. Os oes gennych ddigon o le, gadewch i ambell lecyn dyfu'n hir. Dilynwch y camau isod, a thros nifer o flynyddoedd gallwch weddnewid llecynnau, stribedi neu eich lawnt neu gae cyfan, a'u troi'n ddolydd blodau gwyllt. Cewch ragor o fanylion am greu dolydd bodau gwyllt ar dudalen we **Hyb Dolydd Plantlife.**[8] Mae **Cod Ymarfer Natur Wyllt**[9] yn egluro sut i wneud unrhyw fan gwyrdd yn fwy bioamrywiol.

1. Arhoswch tan ddiwedd y gwanwyn cyn torri'r glaswellt y tro cyntaf, er mwyn i ddant y llew gael cyfle i flodeuo.8 9
2. Yn ystod yr haf, gadewch i'r llystyfiant dyfu'n hir.
3. Torrwch a chasglwch y glaswellt yn yr hydref. Trwy oedi cyn torri a chasglu'r llystyfiant hyd nes y bydd y rhan fwyaf o'r planhigion wedi blodeuo, fe fydd bwyd ar gael yn hirach i bryfed peillio. Fel arall, gallwch dorri gwahanol lecynnau o ganol mis Gorffennaf ymlaen, gan newid pa lecyn y byddwch yn ei dorri gyntaf bob blwyddyn. Trwy wneud hyn, byddwch yn cadw rhywfaint o flodau tan yr hydref. Os yw'r borfa'n tyfu'n gryf, ac yn plygu o dan ei phwysau'i hun, gallwch ei thorri a'i chasglu ynghynt e.e. tua mis Gorffennaf, ac unwaith eto yn yr hydref. Ar ôl ychydig o flynyddoedd, wrth i'r pridd fynd yn llai ffrwythlon, fydd dim angen ichi dorri'r glaswellt yng nghanol yr haf ac fe fydd ei dorri unwaith yn yr hydref yn ddigon.
4. Cofiwch gasglu'r toriadau porfa a chael gwared â nhw bob tro. Fe fydd hyn yn rhwystro deunydd organig (haen o lystyfiant marw) rhag hel – os byddwch yn eu gadael, mae'n bosibl y byddan nhw'n mygu planhigion bregus. Bydd cael gwared â nhw yn sicrhau bod digon o dir noeth ar gael er mwyn i blanhigion allu aildyfu o hadau. Bydd yn gwneud y pridd yn llai ffrwythlon, ac fe fydd hyn yn rheoli tyfiant gweiriau sy'n hoff o faethynnau ac sy'n tyfu'n gyflym – gweiriau a allai fygu blodau gwyllt.
5. **Dewis ychwanegol:** Beth am gasglu hadau blodau gwyllt yn gyfreithlon[10], eu hau mewn blychau hadau a'u tyfu'n blanhigion bach (plygiau). Yna, gallwch eu plannu yn y ddôl yn ystod y gwanwyn a'r hydref. Ar gyfer ardaloedd mawr, defnyddiwch wair gwyrdd lleol i gael gafael ar hadau.

[8] meadows.plantlife.org.uk/cy/home-2/cynnal-dolydd/rheoli-dolydd-o-bob-maint-drwy-dorri/
[9] www.monlife.co.uk/cy/outdoor/nature-isnt-neat/training-and-resources/
[10] www.plantlife.org.uk/uk/discover-wild-plants-nature/picking-wildflowers-and-the-law



## OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Gall chwynladdwyr, yn cynnwys stwff lladd mwsogl, effeithio ar allu blodau gwyllt i sefydlu a thyfu.

Gall gwrteithiau helpu gweiriau i dyfu, a gall y gweiriau yma fygu blodau gwyllt. Os ydych eisiau cael blodau gwyllt, peidiwch â defnyddio chwynladdwyr na gwrteithiau ar eich lawnt.

### 'IDDYN NHW' – TORRI GLASWELLT MEWN FFORDD SY'N GYFEILLGAR I BRYFED PEILLIO

Mae torri eich glaswellt yn llai aml yn un o'r ffyrdd symlaf o ganiatáu i flodau dyfu a darparu bwyd ar gyfer pryfed peillio a bywyd gwyllt arall.




**Mae gadael i lystyfiant dyfu'n hir yn darparu bwyd a lloches. Pan fydd blodau wedi hadu, torrwch y llystyfiant a chasglu'r toriadau yn yr hydref.**

**O tua mis Ebrill ymlaen mae'r blodau gwyllt isod yn tyfu'n well os yw'r glaswellt ychydig yn hwy. Bydd torri gwahanol ardaloedd yn ôl amserlen dreigl 4-8 wythnos, gyda'r llafn wedi'i osod i 2.5 – 5cm (1-2 fodfedd) yn rhoi'r cyfle iddynt flodeuo.**

**Mae torri llwybrau yn y glaswellt yn eich galluogi i gerdded ymhlith y blodau.**

# CAFNAU PLANNU

Gall cafnau plannu gynnig llefydd gwerthfawr i dyfu planhigion. Gallan nhw adfywio silffoedd ffenestri, iardiau bach, patios neu arwynebau solet. Yng nghanol trefi neu ar y stryd fawr, maen nhw'n cynnig gwledd o flodau a chyfle i ddangos i bobl pa blanhigion sy'n dda i bryfed peillio. Fe fydd planhigion sydd wedi'u plannu mewn cafnau neu botiau yn hollol, ddibynnol arnoch chi. Trwy'r gwanwyn a'r haf, edrychwch arnyn nhw bob diwrnod i weld a ydyn nhw oes angen dŵr arnyn nhw. Pan fydd y planhigion yn eu blodau, ewch ati bob pythefnos i'w bwydo gyda hylif sy'n llawn potasiwm. Mae modd defnyddio dail cyfardwf i wneud hylif sy'n addas i fwydo planhigion. Gwnewch yn siŵr fod pridd y cafnau a'r potiau'n draenio'n iawn. Cofiwch y bydd angen ichi eu rhoi mewn llecyn heulog.

Er mwyn rhwystro'r planhigion rhag mynd yn rhy wlyb neu'n rhy oer dros y gaeaf, os oes modd, rhowch gafnau bach a chanolig mewn cyntedd neu dŷ gwydr heb wres. Fel arall, codwch nhw oddi ar y ddaear a rhowch nhw yng nghysgod wal. Yn y gwanwyn, ychwanegwch dipyn o gompost pridd di-fawn at eich potiau. Peidiwch â gorlenwi eich cafnau. Gadewch fwlch o ryw 2.5cm rhwng y pridd â thop y cafn – wedyn, bydd digon o le i ddŵr hel a threiddio.

Mae'r tabl canlynol wedi'i seilio ar lyfr Jan Miller-Klein's[11], ac mae hefyd yn cynnwys rhai planhigion sydd wedi'u hawgrymu gan Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Ynddo, fe welwch restr o flodau sy'n dda i bryfed peillio ac sy'n addas i'w plannu mewn cafnau. I'ch helpu i ddewis pa blanhigion i'w tyfu a ble i'w gosod yn y cafn, maen nhw wedi'u trefnu'n ôl eu maint. Rhowch y planhigion mwyaf yn y canol. Wrth ichi symud yn nes at ymyl allanol y cafn, defnyddiwch blanhigion llai, ac yna rhowch blanhigion ymlusgol wrth yr ymyl.

Os yw eich cafn wrth ymyl wal, rhowch y planhigion mwyaf yn y cefn. Mae nifer o'r planhigion yma'n blanhigion lluosflwydd ac fe fyddan nhw'n blodeuo'r naill flwyddyn ar ôl y llall.



[11] Cafodd y tabl ei seilio ar Gardening for Butterflies, Bees and other beneficial insects: A how to guide. Jan Miller-Klein ISBN 978-0-9555288-0-4



**Ble i Osod Planhigion Pryfed Peillio mewn Cafnau**

| MAWR | CANOLIG | BACH | YMLUSGOL |
|---|---|---|---|
| *Agastache* | Gludlys | Meillion | *Aubretia/ Aubrieta* |
| *Ageratina ligustrina* | Mintys y Gath | Carn yr Ebol | Pys-y-ceirw |
| *Allium* | Y Wermod Wen | Saffrwm | Glesyn y Coed |
| Dahlia (blodau sengl) | Swllt Dyn Tlawd | Marddanadl | Mintys y Gath (ymlusgol) |
| Echinacea | Briweg lâr Fach yr Haf | Sgorpionllys | Iorwg (ymlusgol) |
| Melyn yr Hwyr | Y Bengaled | Grug | Planhigion Briweg (rhai bach) |
| Lafant | Penrhudd | Crafanc-yr-arth | Teim (ymgripiol) |
| Iorwg (Arborescens) | Planhigion *Astrantia* | Plucen Felen | Gwiberlys 'Blue Bedder' |
| Helyglys Hardd | Mintys (plannwch nhw yn eu potiau eu hunain) | Gold | |
| Rhosmari | *Nicotiana* | Briallu | |
| *Verbena bonariensis* | Oregano | Eirlysiau | |
| Blodau'r Fagwyr (Lluosflwydd) e.e. 'Bowles Mauve' | *Rudbeckia* | Suran y Cŵn | |
| | *Salvia* | Teim | |
| | Clafrllys y Maes / Tamaid y Cythraul | Ffacbys y Berth | |
| | Gwiberlys | Fioledau | |

# SUT I GREU LLE SY'N GYFEILLGAR I BRYFED PEILLIO

Dyma rai syniadau ar gyfer gwneud eich lle'n gyfeillgar i bryfed peillio, waeth pa mor fawr neu fach yw e. Mae darluniau ar dudalennau 28-33.

## Balconïau ac iardiau

Beth am groesawu pryfed peillio i'ch balconi neu eich iard trwy blannu planhigion sy'n gyfeillgar i bryfed peillio a fydd hefyd yn cynnig lliw, aroglau persawrus a bwyd? Mae hi'n bwysig gwybod faint o bwysau y gall eich balconi ei ddal. Er mwyn lleihau'r pwysau, defnyddiwch botiau a chafnau wedi'u gwneud o ddeunyddiau ysgafn, ond gwnewch yn siŵr eu bod yn ddigon sad i aros yn eu lle. Hefyd, mae modd cael gafael ar gompost di-fawn ysgafn. Cofiwch y bydd y cafnau'n drymach ar ôl ichi eu dyfrio. Efallai y byddwch angen gosod rhywbeth ar eich balconi i gynnig cysgod rhag y gwynt.

Mewn iardiau, does dim angen ichi boeni am y pwysau, felly gallwch ddefnyddio cafnau mwy. Er mwyn cael rhagor o le i dyfu planhigion gallwch osod cafnau y naill ar ben y llall, ar ffurf grisiau neu byramid. Mewn cafnau mawr, gallwch blannu coed ffrwythau wedi'u tyfu o wreiddgyff corblanhigyn, ac os yw'r lle'n brin gallwch eu harwain i dyfu yn erbyn wal.

## Mannau cymunedol

Gall mannau cymunedol fel rhandiroedd, tiroedd ysgolion neu erddi cymunedol fod yn llefydd gwych i bryfed peillio.

Yn gyntaf, edrychwch o ddifrif ar y lle sydd ar gael a chwiliwch am lecynnau sydd eisoes yn cynnig bwyd a lloches i bryfed peillio, er enghraifft: gwrychoedd blodeuol, blodau gwyllt ar dir diffaith, llecynnau lle mae mieri neu iorwg yn tyfu. Mae gwrychoedd brodorol sy'n cynnwys helyg, drain duon, drain gwyn, coed afalau surion, ceirios gwyllt, coed eirin gwyllt, mieri ac iorwg yn gallu cynnig bwyd o ddechrau'r gwanwyn tan ddiwedd yr hydref. Maent yn darparu lloches ac yn cael eu defnyddio gan bryfed ar adegau gwahanol eu bywyd, h.y. ŵy, larfa, chwiler ac yn eu llawn dwf.



Os oes gennych wrych brodorol neu'n bwriadu tyfu un, cofiwch adael rhan ohono heb ei dorri. Torrwch gwrychoedd bob 3-5 mlynedd, a pheidiwch â thorri mwy na thraean mewn unrhyw un flwyddyn. Mae hyn yn enwedig o bwysig os ydych yn gofalu am wrychoedd a ffiniau coetir lle y gall y **frithribin frown**[12] fod yn bresennol.

Efallai fod gennych lecyn glaswelltog sy'n caei ei dorri'n fyr. Pe baech yn gadael i'r llecyn hwnnw dyfu, mae'n bosib y byddai gwahanol fathau o flodau gwyllt cyffredin – fel llygad y dydd, blodau ymenyn, pys-y-ceirw, meillion a dant y llew – yn tyfu yno.

Mae hi'n bwysig tyfu planhigion a fydd yn cynnig bwyd i bryfed peillio drwy gydol y flwyddyn. Os oes gan eich ysgol neu eich man cymunedol arwyneb solet, beth am ddefnyddio cafnau a photiau i dyfu planhigion? Mwya'n byd yw'r cafn, rhwydda'n y byd fydd gofalu amdano.

Os oes gennych adeilad neu ffens ar eich eiddo, gallwch eu defnyddio i wneud yn fawr o'r lle tyfu sydd ar gael ichi. Er enghraifft, mae modd tyfu mwyar duon heb ddrain, gwyddfid, hopys neu rosynnau blodau sengl ar ddelltwaith. A gallwch arwain coed eirin neu goed afalau i dyfu yn erbyn waliau.

Hefyd, gallwch roi to gwyrdd ar siediau neu adeiladau[13].

Mae angen dŵr ar bryfed peillio. Maent yn cael dŵr o neithdar, ac er mwyn sicrhau cyflenwad cyson o neithdar mae angen dyfrhau planhigion mewn tywydd sych. Gall powlen fas ac ynddi ychydig o gerrig, wedi'i llenwi â dŵr glaw, roi diod ychwanegol iddynt.

Os ydych eisiau creu llefydd i bryfed peillio gael lloches a nythu, mae Cynllun Pryfed Peillio Iwerddon Gyfan wedi llunio canllawiau **'sut i' defnyddiol iawn ar greu cynefinoedd nythu i bryfed peillio**[14]. Mae gan wefan **The Pollinator Garden**[15] wybodaeth am adeiladu a chynnal gwestai trychfilod.

## Gerddi

Mae gerddi yn amrywio'n fawr o ran eu maint. Os mai gardd fechan sydd gennych, efallai y bydd rhai o'r syniadau ar gyfer balconïau/iardiau yn ddefnyddiol i chi. Os oes gennych ardd fwy, efallai y bydd modd ichi gynnwys rhagor o'r syniadau ar gyfer mannau cymunedol.

Er mwyn eich helpu i weld sut gallech greu gardd pryfed peillio eich hun, dyma lun o ardd drefol ganolig ei maint.

[12] **butterfly-conservation.org/sites/default/files/bcw_brown-hairstreak-with-badge.pdf**
[13] Buglife's 'A Best Practice Guide for Creating Green Roofs for Invertebrates' - **www.cdn.buglife.org.uk/2019/07/Creating-Green-Roofs-for-Invertebrates_Best-practice-guidance.pdf**
[14] **www.pollinators.ie/wordpress/wp-content/uploads/2018/02/Pollinator-How-to-Guide-1-ALT_FINAL.pdf**
[15] **www.foxleas.com/**


## CROESAWCH BRYFED PEILLIO I’CH BALCONI A’CH IARD

Mae hadau capan cornicyll (*Tropaeolum majus*) yn fawr, felly gall plant eu tyfu'n rhwydd. Cofiwch gasglu a storio'r hadau ar gyfer y flwyddyn wedyn.

Mae modd tyfu bylbiau sy'n blodeuo yn y gwanwyn – fel eirlysiau, saffrwm a chlychau dulas – mewn potiau neu focsys ffenestri.

Defnyddiwch ddelltwaith i dyfu llwyni mwyar duon garddwrol sydd heb bigau, neu rhowch gynnig ar wyddfid. Mae'r planhigyn yma, sy’n cynhyrchu arogl persawrus gyda'r nos, yn dda i wyfynod.

Meddyliwch sut gallwch wneud yn fawr o'ch lle. Defnyddiwch ffrâm ddringo, basged grog, bocs ffenestr, silffoedd, neu botiau y gallwch eu rhoi'n sownd yn y wal.



Gallwch dyfu gardd berlysiau mewn pot neu focs ffenestr.

Gall cafnau plannu, potiau, blychau ffenestri a basgedi crog ddarparu mannau gwerthfawr ar gyfer tyfu planhigion ar gyfer pryfed peillio.

Mae angen i bryfed peillio yfed. I sicrhau cyflenwad cyson o neithdar mae’n bwysig dyfrhau planhigion mewn tywydd sych.

Dewiswch flodau y gall trychfilod gasglu paill a neithdar ohonyn nhw'n rhwydd e.e. blodau agored neu siâp cloch. Peidiwch â dewis planhigion â blodau dwbl.

Arbedwch arian a thyfwch eich planhigion eich hun o hadau a thoriadau gan ffrindiau.

## CROESAWCH BRYFED PEILLIO I'CH MAN CYMUNEDOL

Mae gwrychoedd brodorol yn darparu bwyd a lloches.

Er mwyn atal llwydni ffwng rhag lladd larfâu, cofiwch fod angen gwarchod tai trychfilod rhag tywydd gwlyb.

Gall cloddiau pridd, pridd noeth, bylchau mewn waliau, a phentyrrau o gerrig a boncyffion gynnig cartref i wenyn.

Byddwch yn wyllt – gadewch i natur hawlio rhai ardaloedd yn ôl. Os oes modd, gadewch i blanhigion fel ysgall, danadl poethion a mieri dyfu.

Bydd tŷ gwydr neu dwnnel polythen yn eich helpu i dyfu planhigion o hadau ac yn amddiffyn planhigion llai gwydn yn ystod y gaeaf.

Mae siediau, adeiladau, waliau a ffensys yn cynnig llefydd ychwanegol i dyfu pethau.



Mae perlysiau'n gnwd da – gall pobl gasglu perlysiau i'w defnyddio drwy gydol y tymor.

Gall iorwg aeddfed ar hyd ffens ddarparu bwyd a lloches ar gyfer amrywiaeth o bryfed peillio.

Gadewch i rai llysiau a gwrteithiau gwyrdd flodeuo.

Peidiwch â thorri'r glaswellt mor aml. Amrywiwch y ffordd y byddwch yn torri ac yn casglu'r toriadau – gweler tudalennau 21-23.

Bydd trychfilod yn peillio eich ffrwythau a'ch llysiau.

Gellir tyfu coed ffrwythau ar ffurf coeden hirgyff, mewn potiau neu eu harwain i dyfu ar hyd waliau neu weiars. Mae modd tyfu coed afalau ar ffurf bwa neu ffin isel y gellir camu drosti i wahanu ardaloedd.

Peidiwch â defnyddio cemegau niweidiol.

Bydd borderi a gwelyau blodau cyfeillgar i bryfed peillio mewn llecynnau heulog yn cynnig bwyd drwy gydol y flwyddyn.

Mae plannu lleiniau o'r un math o flodau'n arbed amser i bryfed peillio, gan y gallant symud o un blodyn i'r llall yn rhwyddach.

## CROESAWCH BRYFED PEILLIO I'CH GARDD

Byddwch yn llai twt. Mae pryfed peillio angen lloches i oroesi. Mae gwrychoedd, bylchau mewn waliau, pentyrrau o gerrig, boncyffion, cloddiau pridd a phridd noeth hefyd yn cynnig safleoedd nythu a gaeafu. Yn ystod y gaeaf, mae coesynnau a phennau hadau marw yn cynnig lloches i bryfed.

Gall bylbiau'r gwanwyn, fel eirlysiau a saffrwm, dyfu'r naill flwyddyn ar ôl y llall ac ymledu'n naturiol.

Gall planhigion pryfed peillio dyfu mewn craciau yn y palmant, e.e. teim ymgripiol.



Trwy osod cafnau y naill ar ben y llall, byddwch yn gwneud yn fawr o'r lle sydd ar gael.

Gallwch greu gwrych cyfeillgar i bryfed peillio trwy ddefnyddio planhigion mahonia.

Gallwch blannu saffrwm, eirlysiau a blodau'r gwynt sy'n blodeuo'n gynnar dan lwyni a choed collddail.

Peidiwch â defnyddio cemegau niweidiol.

Plannwch flodau sy'n gyfeillgar i bryfed peillio ar hyd borderi, mewn gwelyau ac mewn potiau, mewn llecynnau heulog, er mwyn cynnig bwyd o ddechrau'r gwanwyn tan y gaeaf.

Byddwch yn wyllt – gadewch i natur hawlio rhai ardaloedd.

Bydd powlen fas ag ynddi ychydig o ddŵr yn cynnig diod i bryfed peillio.

Peidiwch â thorri'r glaswellt mor aml. Amrywiwch y ffordd y byddwch yn torri ac yn casglu'r toriadau – gweler tudalennau 21-23.

Gellir defnyddio compost o'ch gardd ar gyfer eich blodau a'ch cnydau.

Gadewch i rai llysiau flodeuo.

# TYFU EICH PLANHIGION NEWYDD EICH HUN YN RHAD AC AM DDIM

Teimlad braf iawn yw gweld pryfed peillio yn bwydo ar flodau rydych chi wedi'u plannu. Meddyliwch, felly, pa mor braf fyddai tyfu eich planhigion newydd eich hun. Mae yna sawl ffordd o wneud hyn.

## Tyfu planhigion o hadau

Mae modd tyfu llawer o flodau gwyllt a phlanhigion gardd o hadau. Drwy brynu pecyn sengl o hadau gallwch dyfu rhagor o blanhigion am lai o arian na thrwy prynu planhigyn aeddfed. Mae'n fwy cost-effeithiol byth os ydych yn casglu hadau o'ch gardd.

Mae staff Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru wedi sefydlu banc hadau i gadw hadau planhigion gwyllt o Gymru. Maen nhw'n rhannu eu cyfrinachau ar gyfer sychu, glanhau a storio hadau yn **Cadw hadau'n llwyddiannus**[16] a **Storio hadau'n llwyddiannus**[17].

Mae Cynllun Pryfed Peillio Iwerddon Gyfan wedi llunio canllawiau 'sut i' ar gasglu a defnyddio hadau blodau gwyllt sy'n gyfeillgar i bryfed peillio – **How-to-guide, Collecting and using pollinator friendly wildflower seed**[18].

Hefyd, mae'r Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol yn cynnig cyngor ar **gasglu a storio hadau**[19].



credyd llun: J Brentnall

## Tyfu planhigion o doriadau

Gyda rhywfaint o ymarfer a gallu, gallwch gymryd toriadau o rai planhigion. Mae gan Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru **ganllaw defnyddiol ar wneud toriadau yn yr ardd**.[20]

[16] garddfotaneg.cymru/2020/08/successful-seed-saving-at-home/
[17] garddfotaneg.cymru/2020/08/successful-seed-storage-at-home/
[18] www.biodiversityireland.ie/wordpress/wp-content/uploads/Pollinator-How-to-Guide-2_ALT_FINAL.pdf
[19] www.rhs.org.uk/advice/profile?pid=675
[20] garddfotaneg.cymru/2020/12/taking-cuttings/



Mae'r Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol yn cynnig arweiniad gam wrth gam. **Toriadau pren meddal**[21] yw'r ffordd hawsaf. Dylech wneud hyn yn y gwanwyn neu ar ddechrau'r haf. Ar ôl ichi ddysgu sut i wneud hyn, gallwch symud yn eich blaen at **doriadau lled-aeddfed**[22] a **thoriadau pren caled**[23] a gaiff eu gwneud yn nes ymlaen yn y flwyddyn.



credyd llun: Jan Miller

## Hollti

Trwy hollti eich planhigion lluosflwydd pan fyddan nhw'n dechrau mynd yn brin o le, byddwch yn rhoi hwb iddyn nhw, a byddwch yn cael planhigion newydd hefyd. Ar ôl hollti planhigion fe ddylech eu plannu mor gyflym â phosibl. Mae'r Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol yn cynnig cyngor ar **hollti**[24].


## Brigblannu

Gallwch hefyd ddefnyddio techneg o'r enw 'brigblannu' i greu planhigion newydd. Gallwch ddefnyddio'r dechneg yma ar lwyni mwyar duon, grug, mahonias a gwyddfid. I frigblannu, plygwch un o'r coesynnau ifanc hyblyg allanol i lawr at y ddaear – neu bot llawn pridd – a'i ddal yn ei le gyda pheg. Bydd cyffwrdd â'r pridd yn annog gwraidd newydd i dyfu. Bydd y planhigyn newydd sy'n datblygu yn aros yn sownd yn ei 'riant', a dim ond ar ôl iddo dyfu'n blanhigyn cryf a magu gwraidd y dylech ei wahanu. Mae'r Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol yn cynnig cyngor manwl ar wahanol ffyrdd o **frigblannu**[25].

[21] www.rhs.org.uk/advice/profile?pid=307
[22] www.rhs.org.uk/advice/profile?pid=404
[23] www.rhs.org.uk/advice/profile?pid=387
[24] www.rhs.org.uk/plants/types/perennials/dividing
[25] www.rhs.org.uk/advice/profile?PID=358

# ADNODDAU A CHYMORTH

Cynhyrchwyd y cyhoeddiad hwn yn rhan o'r cynllun Caru Gwenyn.




Os oes gennych gwestiynau cyffredinol am Caru Gwenyn neu os hoffech wneud cais neu gais adnewyddu, cysylltwch â: **gwarchodnatur@llyw.cymru**

Caru Gwenyn
Y Gangen Bioamrywiaeth a Chadwraeth Natur
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UR

Adnoddau ar gyfer Caru Gwenyn a'r newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf: **www.biodiversitywales.org.uk/Caru-Gwenyn**

# DIOLCHIADAU

Diolch o galon i'r bobl a'r sefydliadau canlynol am eu cymorth wrth lunio'r llyfryn yma: Marc Carlton (**Fforwm Garddio Bywyd Gwyllt**[26]), **Jan Miller**[27], **Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**[28], **Plantlife**[29], Cyngor Sir Fynwy, J Brentnall, C Brown, S Bramwell a thîm Cynllun Pryfed Peillio Iwerddon Gyfan.

Darluniadau gan Aga Grandowicz.[30]

[26] **www.wlgf.org**
[27] **www.7wells.co.uk**
[28] **garddfotaneg.cymru/**
[29] **meadows.plantlife.org.uk/3-maintaining-meadows/managing-meadows-of-all-sizes-with-mowing/**
[30] **aga-grandowicz.com**